



Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl

Dyddiad lansio: 14 Gorffennaf 2020

Ymateb erbyn: 11 Medi 2020

Bydd yr ymgynghoriad hwn fwyaf o ddiddordeb i

Helwyr Anifeiliaid Gwyllt, Sefydliadau Anifeiliaid Hela Gwyllt, Manwerthwyr Anifeiliaid Hela Gwyllt, Proseswyr Anifeiliaid Hela Gwyllt ac Awdurdodau Gorfodi.

Pwnc ymgynghori

Canllawiau i helwyr a manwerthwyr ar drin, paratoi a chyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt yn ddiogel.

Pwrpas yr ymgynghoriad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi lansio ymgynghoriad 8 wythnos ar y canllawiau diwygiedig i Gyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl. Diweddarwyd y canllawiau i wella eglurder yn bennaf ynghylch gofynion Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

| | |
|--|--|
| E-bost: mary.mcglinchey@food.gov.uk | Cyfeiriad post: |
| Mary McGlinchey | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 6, |
| Tîm: Polisi Hylendid Cig | Clive House, 70 Petty France, Llundain SW1H 9EX |

Manylion yr ymgynghoriad

Mae'r ASB wedi diwygio ei Chanllawiau ar Anifeiliaid Hela Gwyllt o 2015 oherwydd galw cynyddol gan y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt am ragor o eglurder ar Reoliadau'r UE a'r DU, yn enwedig yr eithriadau a grybwyllir yn Rheoliad 853/2004 (CE) ar gyfer helwyr a manwerthwyr.

Acronymau:

- ASB – Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- FSS – Safonau Bwyd yr Alban
- CE – Y Gymuned Ewropeaidd
- UE – Yr Undeb Ewropeaidd
- DU – Y Deyrnas Unedig

Cyflwyniad

Nid yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn cynnwys unrhyw newid mewn polisi, yn hytrach mae'n rhoi mwy o eglurder ar Reoliadau'r UE ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt; yn bennaf ar gyfer yr helwyr, y proseswyr a'r manwerthwyr sy'n saethu ac yn cyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt.

Prif gynigion:

- Eglurder mewn perthynas â Rheoliadau'r UE ar eithriadau helwyr a manwerthwyr.
- Newid yng nghynllun y canllawiau gwreiddiol i'w gwneud yn haws eu darllen.
- Eglurder ar reoliadau cyfredol yr UE o fewn meysydd fel y bwtri helgig, cludiant, y gallu i olrhain, cynhyrchwyr cynradd a'r heliwr/parti hela.
- Cynulleidfa darged: mae'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt (helwyr a manwerthwyr), nid ar gyfer awdurdodau gorfodi cyfraith bwyd fel y mae'r canllawiau blaenorol yn ei awgrymu (er y gallant fod yn ddefnyddiol pan fyddant yn cynnal gwiriadau gorfodi).
- Terminoleg: mae'r term 'saethwr' wedi'i ddileu. Mae heliwr yn derm unigol sy'n cyfeirio at hela a saethu.

Cynigion Manwl

Nid oes unrhyw newid mewn polisi yn y canllawiau newydd hyn, dim ond eglurhad o Reoliadau'r UE a newid mewn cynllun i'w gwneud yn haws eu darllen. Rydym ni'n rhagweld y bydd y canllawiau hyn yn cael eu croesawu gan fod y diwydiant wedi gofyn am y newidiadau hyn, ac wedi cyfrannu at lunio'r canllawiau newydd hyn.

Effeithiau

Mae'r mân ychwanegiadau hyn yn sicrhau bod y canllawiau yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol yn llawn. Bwriad y newidiadau yw rhoi mwy o eglurder ac i wella dealltwriaeth o'r rheolau ar gyflenwi anifeiliaid hela gwyllt i'w bwyta gan bobl. Yn dilyn asesiad yr ASB o effaith y diweddariadau, tybir y bydd y gost o ymgysylltu â'r newidiadau i'r helwyr a'r manwerthwr hynny y mae'r canllawiau yn berthnasol iddynt, ac i awdurdodau lleol, yn gymharol isel. Rydym ni'n amcangyfrif y bydd yn cymryd tua 20 munud i ddarllen y canllawiau hyn a dod yn gyfarwydd â nhw.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae rhanddeiliaid wedi bod yn rhan weithredol o lunio Canllawiau diwygiedig yr ASB ar Anifeiliaid Hela Gwyllt. Ffurfiodd yr ASB weithgor anifeiliaid hela gwyllt; roedd yn cynnwys swyddogion gorfodi, helwyr, sefydliadau anifeiliaid hela gwyllt, proseswyr anifeiliaid hela gwyllt, cynrychiolwyr polisi'r ASB a chynghorwyr milfeddygol o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac o FSS (Safonau Bwyd yr Alban). Bu aelodau'r gweithgor hwn yn cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod y materion o ran y canllawiau cyfredol, ac roeddent yn allweddol wrth lunio'r canllawiau diwygiedig hyn. Nid oes angen rhagor o gyfarfodydd cyn yr ymgynghoriad hwn, ond bydd yr adborth a ddarperir gan yr aelodau yn cael ei ystyried.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. A yw'r canllawiau newydd hyn yn egluro'r eithriadau o ran helwyr a manwerthwyr a nodir yn Rheoliad (CE) 853/2004 ar gyfer cyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt?
2. A yw'r canllawiau newydd hyn yn haws eu darllen?
3. A yw'r canllawiau newydd hyn yn diwallu anghenion y gynulleidfa (helwyr, proseswyr a manwerthwyr anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt)?

Dogfennau perthnasol eraill

- <https://www.food.gov.uk/cy/business-guidance/canllawiau-anifeiliaid-hela-gwyllt>
- ASB – Canllawiau Trichinella – Baedd Gwyllt (<https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/trichinella>)
- Rheoliad (CE) 852/2004, Rheoliad (CE) 853/2004, a Rheoliad (CE) 178/2002, Rheoliad (CE) 999/2001, Rheoliad (CE) 931/2011, <https://eur-lex.europa.eu/homepage.html?locale=en>

- Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol yr ASB (<https://www.food.gov.uk/business-guidance/manual-for-official-controls>)

Ymatebion

Gofynnir i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 11 Medi 2020. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Mary McGlinchey
Polisi Hylendid Cig

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk/https://ico.org.uk>, [neu drwy ffonio 0303 123 1113](https://ico.org.uk/https://ico.org.uk).

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at:
informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Atodiad B: Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Cyngor Sir Amwythig

Ciperiaid Cenedlaethol

Y Fenter Ceirw

Hampshire Game

Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Cyngor Dosbarth Daventry

Cynghrair Helgig Prydain

Willo Game

St. David's Game Birds

Ben Rigby Game